

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn yr
Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 3 Chwefror 2020 am 8:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

52. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Jabez Oakes, Ken Hawkins, John Wynne Hughes ac Ifan Wyn.

53. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

54. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020 yn gywir.

55. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Cynghorydd Heather Williams ei bod wedi mynd i ddiwyddiad hyfforddiant ar y cyd Cymorth Cynllunio Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn Venue Cymru, Llandudno, ac y byddai'n darparu adborth i holl aelodau'r Cyngor dan eitem Adroddiadau Aelodau yn y cyfarfod Cyngor nesaf.

56. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniadau cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/0931 – Llys Awelon, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun – Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel rhannol y cartref gofal a'r Ganolfan Gymuned sy'n bodoli eisoes – Caniatawyd
02/2019/0983 – Fflatiau 1-8, Pant Glas, Ffordd Maes Glas, Rhuthun – Addasiadau allanol i ddau floc o fflatiau – Caniatawyd
02/2019/1088 – 10 Rhes yr Orsaf, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun – Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn a gwaith mewnol cysylltiedig – Caniatawyd

57. CAIS CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: ailadrodd y sylwadau isod.

02/2019/0895 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun

Adeiladu 77 o anheddau fforddiadwy ynghyd â mynediad, manau agored a gwaith cysylltiedig. *Croesewir y nifer arwyddocaol o gartrefi fforddiadwy a chymdeithasol, fodd bynnag mae'r aelodau o'r farn bod defnyddio'r darn tir nesaf at yr ysgol yn cyfaddawdu'r cynllun tai a darpariaeth chwarae a gallu Ysgol Stryd y Rhos i gael estyniad yn y dyfodol. Byddai'r eiddo hyn yn agos iawn at yr ysgol a gofynnodd yr aelod i'r pum uned gael eu dileu o'r cais cynllunio.*

58. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033 – YMGYNGHORI YNGHYLCH Y SAFLEOEDD YMGEISIOL YCHWANEGOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y saith safle ymgeisiol ychwanegol yn Rhuthun a gyflwynwyd i Gyngor Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth a Ffafirir ddrafft. Gwnaed sylwadau fel a ganlyn:

CS-02E-201 – Tir nesaf at Argoed – Safle 1

CS-02E-211 – Tir nesaf at Argoed – Safle 2

Nid yw'r safleoedd arfaethedig yn cydweddu'n dda gyda'r datblygiad sy'n bodoli eisoes a byddai problemau mynediad ar ffordd brysur iawn.

CS-02E-212 – Tir yn Ystad Ddiwydiannol Lôn Parcwr

Pryder ynghylch y mynediad i'r safle.

CS-02E-219 – Tir wrth Hafod, Rhuthun

Byddai'r safle arfaethedig yn arwain at orddatblygu a byddai'n niweidiol i gymeriad Llanfwrog fel

pentrefan.

CS-24E-205 – Tir nesaf at Garej Esso, Ffordd Dinbych

Holwyd cwestiwn ynghylch y math o ddatblygiad. Anodd gwneud sylwadau priodol pan fo'r defnydd arfaethedig yn nodi "unrhyw beth addas."

Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol yng nghyswllt CS-02E-206 – Dôl oddi ar ffordd osgoi Rhuthun a CS-02-222 – Tir oddi ar Ffordd Maes y Llan.

PENDERFYNWYD: *anfon y sylwadau uchod at dîm Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y safleoedd ymgeisiol ychwanegol a gyflwynwyd.*

59. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 2 Mawrth 2020 am 7.45pm.*